# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2018

Amser: 09.31 - 10.36

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Gareth Bennett AC<br>Paul Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC |
| Tystion: | Michelle Brown AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Dewisodd Jayne Bryant AC, Cadeirydd y Pwyllgor, fod yn absennol o'r cyfarfod cyfan am fod y gŵyn a gyflwynwyd ar ran Grŵp Llafur y Cynulliad yn ei chynnwys hi.

1.2 Paul Davies AC a gadeiriodd y cyfarfod, yn dilyn cytundeb y Pwyllgor ar 15 Tachwedd 2016 i'w ethol yn Gadeirydd dros dro.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Trafod adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i): Sesiwn Dystiolaeth

2.1 Trafododd yr Aelodau Adroddiad y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i), gan gymryd tystiolaeth gan yr Aelod dan sylw a'i chynghorydd.

## 3 Trafod adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i): Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

3.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth ynghyd ag Adroddiad y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i) a chytuno ar benderfyniad ynglŷn â'r mater hwn.

3.2 Bydd y Clercod yn llunio adroddiad i'r Aelodau ei ystyried.